# Adolygiad Blynyddol

**Gêm i Bawb:**
am hwyl, ar gyfer chwaraeon, am fywyd.









2022/2023

# Adolygiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023



**Ashton Bradbury**
Cadeirydd



**Hannah McAllister**
Prif Weithredwr

Mae'n anodd credu bod deuddeg mis wedi mynd heibio ers ein hadolygiad diwethaf. Roedd rhaid wynebu sawl her y llynedd, nid y lleiaf o bell ffordd, oedd yr argyfwng costau byw, yn deillio fel rhan o'r digwyddiadau ofnadwy yn yr Wcráin, sydd wedi effeithio ar lawer o bobl ym mhob cwr o Gymru. Er gwaetha'r cefndir anodd hwn, mae golff yng Nghymru dal yn iach. Mae aelodaeth clwb wedi sefydlogi yn agos at y lefelau a adroddwyd arnynt y llynedd yn dilyn dwy flynedd gref o dwf a gwelwyd twf cadarn yn nifer y sgoriau a gyflwynwyd at ddibenion handicap (mesur gweithgarwch golff).

Llynedd oedd diwedd cylch strategol 2018-23 Golff Cymru ac felly yn ystod y flwyddyn, ymgynghorwyd yn eang gyda chlybiau, chwaraewyr, gwirfoddolwyr, partneriaid cyllid, a rhanddeiliaid i helpu ni ddatblygu ein meddylfryd ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Rydym wrth ein bodd gyda'r ymateb a gafwyd sydd wedi arwain at lansio ein strategaeth pum mlynedd newydd 'Gêm i Bawb: am hwyl, ar gyfer chwaraeon, am fywyd' https://www.walesgolf.org/about/. O ganlyniad i'r ymgynghori, mae gennym gyfres o nodau cyflawnadwy, y gellir canolbwyntio arnynt ac wedi creu strategaeth a fydd, gobeithio, yn golygu rhywbeth i bawb sy'n gyfrifol am ei gyflawni ac o fudd sylweddol i golff yng Nghymru.

Yn ôl at y llynedd, mae Golff Cymru eto wedi cyflawni ystod lawn o weithgareddau a gwasanaethau ar draws ein meysydd craidd o gefnogaeth clwb, 'tyfu'r gamp', handicap, pencampwriaethau a pherfformiad uchel. Yn y cyflwyniad hwn, ni allwn roi sylw teilwng i'r holl waith sydd wedi'i wneud ac felly fe wnawn ni dynnu sylw at rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn.

Roeddem yn falch o weld bod tîm y dynion yn 8 fed ar y cyd ym Mhencampwriaeth Amateur y Byd a gorffennodd tîm y merched yn y 8fed safle ym Mhencampwriaethau Tîm Ewrop. Ar lefel unigol cafodd Chwaraewr Rhyngwladol Cymru, Archie Davies ei ddewis i chwarae ar gyfer tîm Prydain ac Iwerddon yn erbyn Ewrop ar gyfer Tlws St Andrews.

Cafwyd dechrau arbennig o dda i'n partneriaeth gyda Gareth Bale gyda lansio Gŵyl Chwaraeon Gareth Bale a Phencampwriaeth Golff Iau. Roedd Gareth hefyd yn amlwg iawn mewn ymgyrch a gafodd ganmoliaeth uchel; cafodd ei dreialu ar draws Cymru, i helpu hybu buddion iechyd Golff.

Rydym wedi ymrwymo i wella ein cyfathrebu â'r clybiau a chwaraewyr sy'n aelodau ac felly mae'n braf gweld bod dros 17000 o chwaraewyr wedi cytuno i gael ein newyddlenni e-bost. Yn yr un modd, mae dros 23000 o chwaraewyr wedi lawrlwytho App Handicap Golff Cymru ac felly'n elwa drwy gael mynediad ar unwaith i'w mynegai handicap swyddogol. Mae gwelliant diweddar yn y nodweddion yn golygu bod chwaraewyr yn gallu ychwanegu sgoriau chwarae cyffredinol, drwy'r App, o rowndiau sydd wedi'u chwarae yn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon yn ogystal â Chymru.

Yn olaf, dychwelodd Gwobrau Blynyddol Golff Cymru ar ôl absenoldeb o bedair blynedd; roedd hyn yn gyfle gwych i ddathlu llwyddiant ac rydym yn llongyfarch yr holl enillwyr fel y nodir ar dudalen 13.

2023-24 yw cychwyn ein cylch strategol newydd, ac rydym, ymhlith nifer o flaenoriaethau eraill, yn gobeithio cynyddu'r nifer y chwaraewyr iau sy'n chwarae'r gêm, gwella amrywiaeth ar draws y gamp, creu mwy o golffwyr sy'n ennill, rhedeg gwell pencampwriaethau a rhoi gwell cymorth i'n clybiau, a thrwy wneud hynny, gwella profiad y chwaraewr.


Rydym yn deall yn llwyr y gallwn ond cyflawni'r uchelgeisiau hyn drwy weithio mewn partneriaeth gyda'n clybiau, siroedd, gwirfoddolwyr sy'n aelodau, a'n rhanddeiliaid ehangach. Dyma gyfle cyffrous i ni ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi a'ch diweddaru ar ein cynnydd yn y blynyddoedd i ddod.



# Aelodaeth Clwb Golff

**Ar ôl profi twf aelodaeth sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf, dangosodd y ffurflenni dychwelyd cyffredinol, ostyngiad bach, er bod cynnydd calonogol yn nifer yr aelodau benywaidd.**

Wrth i dwf yn yr aelodaeth ddechrau sefydlogi ac aelwydydd yn wynebu pwysau costau byw, mae'n hanfodol bod clybiau yn ceisio recriwtio a chadw aelodau. Mae'r tîm datblygu ar gael i gynnig rhaglenni a chymorth i gefnogi clybiau yn y maes hwn.



**1%** Gostyngiad yn yr aelodaeth

**53,086** o aelodau

**81%** o glybiau wedi cynyddu neu gynnal lefelau aelodaeth dros gyfnod o 5 mlynedd




## Prosiect Gaeaf Golff Cymru ar gyfer Genethod

I gefnogi datblygiad gêm y genethod, dyfarnwyd grant, o £1,000, wedi'i gyllido gan R&A, i 8 clwb golff. Roedd y broses ymgeisio yn gwahodd genethod iau i ddweud wrthym sut y byddent yn defnyddio'r cyllid mewn ffordd arloesol i ddenu genethod i'w clwb. Ymgeisiodd y genethod drwy fideo i egluro eu prosiectau, a oedd yn cynnwys gweithgareddau amrywiol o ddyddiau blasu, clinigau hyfforddi, digwyddiadau cymdeithasol, tripiau golff, citiau hyfforddi a dillad, fframiau hun-lun, bag anrhegion a mwy! Yn ychwanegol, mae'r genethod i gyd yn creu astudiaeth achos o'u prosiectau, a fydd yn helpu i hysbysu datblygiad mentrau Golff Cymru ar gyfer genethod wrth symud ymlaen.



# Tîm Datblygu; Tyfu'r Gêm



## Ramadan Hanner Nos

Yn ychwanegol at ein rhaglenni sydd wedi eu hen sefydlu, mae'n bleser gennym lansio'r fenter Ramadan hanner nos. Cymerodd 65 ran yn sesiynau golff yn cychwyn am hanner nos yn ystod mis Ramadan yng Nghlwb Golff The Parc gan olygu bod Mwslimiaid yn gallu torri eu hympryd, ymarfer eu golff neu ddysgu chwarae.

## Rhaglen recriwtio New2Golf/ Back2Golf

Mae'r cynllun hwn sydd wedi hen ennill ei blwyf yn rhoi cyllid i glybiau i redeg ymgyrch recriwtio aelodau. Gellir targedu'r ymgyrch hyrwyddo at grwpiau penodol fel menywod a genethod, teuluoedd, grwpiau anabledd, neu gyffredinol. Mae'n cefnogi unigolion drwy hyfforddi, cyfleoedd chwarae, digwyddiadau cymdeithasol ac yn ceisio recriwtio golffwyr sy'n cymryd rhan i gynigion aelodaeth amrywiol.

| | |
|---|---|
| Clwb | 55 |
| Cyfranogwyr | 1,210 |
| Benyw | 69% |
| Wedi trosglwyddo i aelodaeth treial | 58% |



## Golff ac Iechyd

Dewiswyd Golff Cymru gan R&A i dreialu ymgyrch hyrwyddo a marchnata golff ac iechyd wedi'i ariannu'n llawn, 'Golf is Good'. Roedd Gareth Bale yn amlwg yn yr ymgyrch, a oedd yn cynnwys hysbysiadau ar 'Sky Sports' a hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Yr amcanion oedd cynyddu nifer y golffwyr presennol sy'n cymryd rhan drwy neges iechyd cryf ac i fanteisio ar fuddion iechyd sydd wedi'u profi o chwarae golff i annog rhai nad ydynt yn chwarae golff i'r gamp. Roedd yr ymgyrch yn llwyddiannus dros ben. Roedd 84% o ymatebwyr yn hoffi neu'n hoffi'n fawr steil yr ymgyrch, 65% o golffwyr a oedd wedi gweld yr ymgyrch wedi chwarae mwy o golff yn 2022; gyda 66% o'r rhai nad ydynt yn chwarae golff yn debygol o ystyried chwarae golff oherwydd y buddion iechyd.



# Rhaglenni Iau

Mae llawer o raglenni i helpu clybiau i dyfu eu hadrannau iau.

Sefydlid Golff HSBC cynlluniau hyfforddi 'Golf Roots' -
**30 cynllun ar gael**

Digwyddiadau Torfol
**55 digwyddiad**

Tystysgrif Golff Ieuenctid
**56 clwb**

Girls Golf Cymru Clinics
**3 clinig, 95 cyfranogwr**

Golf Sixes -
**20 Clwb, 6 Cynghrair, 240 aelod iau**

Cynllun Cadw Genethod –
**8 cynllun, 165 wedi cymryd rhan**



## Presenoldeb mewn digwyddiadau gyda chynulleidfa dorfol

Mae cyllid a chyfarpar ar gael i helpu clybiau a sefydliadau i fynychu digwyddiadau cymunedol i sicrhau bod golff yn amlwg yn lleol.

## Tystysgrif Golff Iau

Gwobr i gefnogi a chydnabod y clybiau hynny sy'n ceisio cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n chwarae golff drwy ddarparu profiad o ansawdd a hwyl.

## Sefydliad Golff HSBC Golf Roots

Yn cynnwys cyllid a chefnogaeth i glybiau i alluogi mwy o bobl ifanc i symud ymlaen o chwarae golff mewn ysgol i ymuno gyda chlwb golf lleol.

## Golf Sixes Y Sefydliad Golff, cefnogir gan R&A

Cynghrair golff rhwng clybiau sy'n cynnwys plant yn chwarae chwe twll mewn parau gan ddefnyddio'r dull hynod o gynhwysol, 'Texas Scramble', gan gronni pwyntiau ar gyfer eu tîm o chwech. Mae'r dull yma wedi'i ddylunio ar gyfer chwaraewyr heb handicap neu handicap o 37 ac uwch.

# Tîm Datblygu;
# Cefnogi ein clybiau

**Rydym yn cynnig ystod gynhwysfawr o gefnogaeth i'n clybiau cysylltiedig i'w helpu i gyflawni eu hamcanion. I sôn am rai, ein cynllun cymorth busnes eang, cefnogi diogelu, cefnogi cydraddoldeb, archwiliad arbed costau am ddim, mynediad at gyngor drwy bartneriaid a chymorth i gael grantiau.**

Mae Clybiau, ochr yn ochr â'r Tîm Datblygu, yn defnyddio'r offeryn Matrics Clwb Cryf a gwiriad iechyd clwb. Mae hyn yn helpu i nodi'r cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwella ar sail Llywodraethu, Cymryd Rhan, Marchnata, Ymwelwyr, Recriwtio a Chadw Aelodaeth, Gwasanaeth Cwsmer, Cydymffurfio, Graddio Cwrs, a Rheoli Cwrs.

Mae cymorth yn gyfuniad o ymgynghoriaeth, gweithdai clwstwr yn trafod themâu allweddol, arweiniad gan Swyddogion Datblygu Clwb, yn ogystal â mynediad at fanc o dempledi ac adnoddau.

## Siarter Menywod mewn Golff

Mae Golff Cymru yn parhau i gefnogi'r Siarter Menywod mewn Golff a ddatblygwyd gan R&A. Mae hyn yn ceisio ysbrydoli ymrwymiad diwydiant-cyfan i ddatblygu diwylliant mwy cynhwysol o fewn golff a galluogi mwy o fenywod a genethod i ffynnu a gwneud y mwyaf o'u potensial ar bob lefel o'r gamp.

Offeryn Gwiriad Iechyd Clwb a Chymorth Busnes

**75 (53%) wedi derbyn cymorth dros 5 mlynedd**

Gweminarau a Gweithdai


**7 gweithdy, 350 Glybiau wedi ei cynrychioli**

Cynllunio Busnes ac Adolygiadau Llywodraethu

**46 wedi eu rhoi (32%) 8 mewn gwaith**

Siarter Menywod mewn Golff

**13**





## Grantiau

Mae Golff Cymru wedi ymrwymo i sicrhau grantiau ychwanegol ar gyfer clybiau. Yn 2022-23 roedd yn bleser gennym sicrhau cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, cael grant o £105mil ar gyfer clybiau a phrosiectau Golff Cymru i ariannu rhaglen gynaliadwy Mae ein tîm datblygu yn cynorthwyo clybiau i gael grantiau amrywiol, yn rhoi cymorth gwerthfawr iddyn nhw. Yn y cyfnod 2022-23, llwyddwyd i gael grantiau allanol o bron i £600mil, gan ddangos ein hymrwymiad i gefnogi clybiau i gael adnodd ariannol ychwanegol.





**Chwaraeon Cymru Cymru Actif**
Grantiau o hyd at **£50mil** ar gyfer prosiectau a datblygu cyfleuster i gefnogi twf y gêm

**22 Clwb / £317mil Cyfanswm**



**Grantiau Cyfalaf Chwaraeon Cymru**
Cyfleusterau Partneriaeth Golff Cymru

**2 glwb / £173mil Cyfanswm**



**Grant Clwb Cynaliadwy**
Grantiau Cronfa Gychwynnol o hyd at **£2mil** yr un Grantiau Cronfa Cyflym o hyd at £5mil yr un Prosiectau Golff Cymru Plus

**27 prosiect / £105mil Cyfanswm**

# Rydym yn rhoi cyfleoedd i glybiau gael gwasanaethau wedi'i ddisgowntio neu gallwn eu cyfeirio at gwmnïau sy'n arwain yn y sectorau perthnasol



### Grŵp Rheoli Golff

Yn rhoi mynediad i holl glybiau cysylltiedig i Golff Cymru i grŵp prynu dynodedig i helpu arbed costau. Mae'r grŵp yn parhau i ychwanegu cyfleoedd newydd fel caffael arlwyo, ynni adnewyddadwy, a mwy.

### Dr Golff

Gwasanaeth cryfder a chyflyru rhithiol.

### 1Stop4aGP

Gwasanaeth GP o bell i glybiau ei basio i'w haelodau ar gyfradd wedi'i ddisgowntio.

### Citation (yn cael ei adnabod fel Xact o'r blaen)

Gwasanaethau Iechyd, Diogelwch ac Adnoddau Dynol wedi'i deilwra yn benodol i'r sector ar gyfer materion fel asesiadau risg, polisïau, a hyfforddiant ar gyfer pob rhan o'r clwb. Mae gan bob clwb fynediad at wasanaethau How-to-Hub di-dal neu wasanaethau Iechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol am gyngor pwrpasol.

### Howden

Cymorth i ganfod yswiriant ar gyfer clybiau golff. O dan 30% o glybiau wedi manteisio ar un neu fwy o'r gwasanaethau yma.



## Handicap a Graddio Cwrs

# System Handicap Y Byd

Mae System Handicap y Byd yn caniatáu i golffwyr gael handicap unrhyw le yn y byd ac mae wedi'i ddylunio i groesawu mwy o golffwyr i'r gêm drwy ei wneud yn haws iddyn nhw ei ddeall. Dros y 2 flynedd ddiwethaf, mae 1.1 miliwn o sgoriau wedi'u cyflwyno drwy'r system yng Nghymru, ac eleni rydym wedi gweld twf yn sgoriau 9 twll, sgoriau chwarae cyffredinol, sgoriau cystadlaethau, a chwaraewyr sydd wedi cofrestru ar Borth Chwaraewyr Golff Cymru ac App Golff Cymru.

Mae ein Porth Chwaraewyr ac App yn rhoi mynediad ar unwaith, cywir a byw i chwaraewyr ar eu mynegai handicap swyddogol a'u cofnod sgôr a'r gallu i gofnodi sgoriau chwarae cyffredinol. Os yw aelodau eto i gofrestru, gwnewch yn siŵr eu bod yn mynd i www.walesgolf.org a chlicio ar 'WHS Login'. Gellir lawrlwytho'r App o'r Apple store ar gyfer iOS neu Google Play store ar gyfer defnyddwyr Android.

Rydym yn darparu help a chymorth handicap i chwaraewyr a chlybiau drwy handicapping@walesgolf.org. Mae'r tîm wedi delio gyda miloedd o ymholiadau ers lansio WHS ac yn ceisio ateb ymholiadau o fewn 2 ddiwrnod.

| | 2021/22 | 2022/23 | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm Sgoriau a gyflwynwyd | 547,607 | 615,712 | +68,105 ↑ |
| Sgoriau a gyflwynwyd drwy App | 20,648 | 58,808 | +38,160 ↑ |
| Sgoriau 9 twll | 43505 (8% o gyfanswm y sgoriau) | 57,352 (9% o gyfanswm sgoriau) | +13,847 ↑ |
| Sgoriau Chwarae Cyffredinol | 128,003 (23% o gyfanswm y sgoriau) | 144,977(24% o gyfanswm y sgoriau) | +16,974 ↑ |
| Sgoriau Cystadlaethau | 419, 604 | 470,735 | +51,131 ↑ |
| Chwaraewyr wedi cofrestru ar y porth | 27,657 | 31,483 | +3826 ↑ |
| Chwaraewyr wedi cofrestru ar yr App | 22,369 | 23, 283 | +914 ↑ |



# Graddio'r Cwrs

Nid yw'r rhaglen graddio cwrs wedi cyrraedd ein disgwyliadau yn 2022. Fodd bynnag, mae ymgyrch recriwtio gwirfoddolwyr newydd wedi'i gynnal ar y cyd gyda hyfforddiant i gynyddu'r nifer o gyrsiau i'w graddio eleni.

Mae 88% o glybiau Golff Cymru yn awr yn cynnig opsiwn cwrs 9-twll wedi'i raddio. Mae hyn wedi'i gyfuno gyda thwf yn y defnydd o tîau ar sail gallu, yn hytrach na rhywedd, yn helpu i ddarparu pob chwaraewr yng Nghymru gydag ystod llawer mwy o opsiynau chwarae er budd i bawb. Os yw eich clwb angen graddio 9 twll, neu os hoffech raddio eich tîau sy'n bodoli eisoes ar gyfer chwaraewyr gwrywaidd a benywaidd, plîs cysylltwch â ni drwy anfon neges i'r e-bost yma: **handicapping@walesgolf.org**



# Flexi Club

Mae ymrwymiad Golff Cymru i Gêm i Bawb: am hwyl, ar gyfer chwaraeon, am fywyd yn cael ei ddangos gan Flexi Club sef aelodaeth clwb golff digidol Golff Cymru. Mae hyn yn gwella hygyrchedd i golff yn gyffredinol ac yn opsiwn ar gyfer golffwyr newydd, golffwyr ar restr aros, neu bobl nad ydynt yn gallu ymrwymo i ymuno gyda chlwb ar hyn o bryd. Am ffi fisol neu flynyddol gall unigolion nad ydynt yn aelodau clwb gael handicap. Mae Flexi Club hefyd yn gweithredu fel llwybr i aelodau clwb golff, ac rydym wedi gweld 10% yn trosglwyddo o Flexi Club i aelodaeth clwb.

Mae Flexi Club yn cyflwyno clybiau gyda chyfle i ehangu eu ffrydiau refeniw ac yn estyn i olffwyr sy'n ymweld â'u cyfleusterau Mae hyn yn gyfle deniadol i hybu eich clwb i unigolion brwdfrydig am golff ac sydd eisoes yn cymryd rhan ac sydd o bosib yn awyddus i sefydlu cysylltiad parhaol.

**Ffigurau hyd at 31 Mawrth 2023**

Twf aelodaeth o dros 200% yn y 12 mis diwethaf

**258** Aelod


**40** oed ar gyfartaledd

**19.8** Handicap cyfartalog

Dros **2000** rownd golff wedi'i chwarae

**10%** o aelodau wedi trosglwyddo i aelodaeth clwb

**6%** heb adnewyddu



FLEXI CLUB
WALES GOLF

# Digidol a Chyfathrebu

Mae Golff Cymru wedi ymrwymo i ddiweddaru clybiau a chwaraewyr gyda newyddion a datblygiadau o ran y gamp. Gall aelodau clwb sydd wedi ymuno gyda Phorth Chwaraewyr Golff Cymru dderbyn newyddlenni yn ogystal â chynigion ad-hoc a deunydd hyrwyddo gyda'r holl straeon ar bob elfen o golff yng Nghymru a thu hwnt. Mae hyn ochr yn ochr gyda diweddariadau rheolaidd drwy ein cyfryngau cymdeithasol. Anfonir bwletin bob pythefnos i holl glybiau golff i ddiweddaru rheolwyr clwb a phersonél allweddol gyda'r newyddion diwydiant a'r datblygiadau diweddaraf o ran y gamp yng Nghymru.

Mae'n bleser gennym weld y twf yn ein hystadegau cyfryngau cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf a nifer y bobl sy'n cael ein diweddariadau.

1:00 PM

**17,659**
Clybiau aelod sy'n cael cyfathrebiadau

**4,496**
Dilynwyr Facebook

**4,404**
Dilynwyr Instagram

**9,311**
Dilynwyr Twitter

**474,349**
Sesiynau tudalen ar y wefan*

*Y flwyddyn flaenorol yn uwch oherwydd bod pobl yn defnyddio ein gwefan i gael mynediad at ddiweddariadau cyfyngiadau COVID a gwybodaeth am amseroedd agor.

data ar y 31/3/23



# Perfformiad Uchel

**Mae ymfalchïo yn ein talent yn destun balchder i Golff Cymru. Roeddem wrth ein bodd o fod yn y 10 uchaf ym Mhencampwriaeth Golff Tîm Amatur (Dynion) ; T8fed, y safle uchaf ers 2006. Am y tro cyntaf ers 25 mlynedd, llwyddodd tîm y menywod i gymhwyso ar gyfer haen uchaf Pencampwriaeth Tîm Ewropeaidd, a oedd yn cael ei gynnal gartref yng Nghlwb Golff Conwy, a gorffennodd y tîm yn yr 8fed safle.**

Gyda chymorth hanfodol gan bartneriaid fel R&A, a Chwaraeon Cymru, rydym wedi cefnogi 43 chwaraewr gyda'u huchelgeisiau cystadleuol, yn eu cefnogi i gystadlu mewn twrnameintiau a phencampwriaethau rhyngwladol yn ogystal â thrwy'r Rhaglen Carfan Perfformiad Uchel.


Diolch i nifer o glybiau ym mhob rhan o Gymru a roddodd gyfle i'n carfanau ddefnyddio eu cyfleusterau, yn ogystal â PING, ein darparwr cit swyddogol.

Ymunodd Benjamin Gorvett, gyda staff Perfformiad Uchel fel Swyddog 'Pathway and High Performance', pwrpas y rôl yw gwella datblygu talent a chefnogi chwaraewyr ifanc i symud o gymryd rhan i berfformio.


**Roedd llawer o uchafbwyntiau a pherfformiadau cryf gan gynnwys:**



**Pencampwriaeth Tîm Amatur y Byd (Dynion)**
T8fed Roedd y tîm yn cynnwys Archie Davies (T9), James Ashfield (T40) and Luke Harries (T49)



Roedd **Archie Davies** yn cynrychioli y DU ac Iwerddon yn Nhlws St Andrews a daeth yn 58fed yn safle Golff Amatur Cymru.



**Caolan Burford**
Enillydd Pencampwriaeth Open Stroke Play Cymru Ebrill 2022



**Pencampwriaeth Golff Tîm Ewropeaidd (Menywod)** (a oedd yn cael ei gynnal yng nghlwb Golff Conwy) - 8fed



**James Ashfield a Caolan Burford**
wedi'u henwi fel eilyddion ar gyfer Tlws St Andrews a Thlws Jacques Leslie yn y drefn honno




**Buddugoliaethau i Alex James**
ym Mhencampwriaeth Agored Ieuenctid Cymru a Thlws Berksh



**Buddugoliaeth i Elen Nicholas mewn digwyddiad Coleg US**

# Pencampwriaethau a Digwyddiadau



**Cyflwynwyd amserlen lawn o bencampwriaethau a digwyddiadau, yn ehangu ymhellach ein hystod o ddigwyddiadau gyda Phencampwriaeth Amatur Cymru newydd ei gyfuno gyda Gŵyl Golff Cymru, a oedd yn cynnwys digwyddiadau ar gyfer dechreuwyr a chwaraewyr gydag anabledd.**

Roeddem wrth ein bodd yn sicrhau cefnogaeth eicon pêl-droed Gareth Bale i hyrwyddo'r gêm i'r genhedlaeth nesaf o golffwyr. Fel rhan o ymrwymiad Gareth, cynhaliwyd Gŵyl Chwaraeon a Phencampwriaeth flynyddol Gareth Bale gyda chymorth Chwaraeon Cymru a'r R&A ym mis Mehefin yng Ngwesty'r 'Vale Spa and Golf Rresort'. Roedd y twrnamaint 2-ddiwrnod, ar gyfer golffwyr ifanc gorau Cymru wedi'i gyfuno gyda gŵyl aml-gampau ar gyfer pobl ifanc leol. Cyflwynodd Gareth Bale'r gwobrau i'r enillwyr a chafodd fideo byr o'r digwyddiad ei bostio ar ei gyfrif Instagram; gan gyrraedd dros 600,000 o ymwelwyr o fewn oriau.

Cafodd ymgyrch recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer timau'r Bencampwriaeth a graddio cwrs ei gynnal gydag ymateb rhagorol. Mae nifer gwirfoddolwyr Golff Cymru wedi mwy na dyblu i 115, sydd o fudd i dymor 2023.

Rydym yn diolch i'r holl chwaraewyr am gymryd rhan yn ein digwyddiadau gan ddiolch yn arbennig i'n clybiau lle cafodd y digwyddiadau eu cynnal, ac i'n gwirfoddolwyr ffyddlon, ni fyddai modd gwneud hyn heb eich cymorth!

## Ystadegau Pencampwriaethau

**37**
Pencampwriaethau

**62**
Dyddiau Cystadleuaeth

**24**
Lleoliadau Unigryw

**5484**
Nifer wedi cofrestru

**90.57%**
Arolwg Chwaraewyr - yn debygol neu'n debygol iawn o argymell digwyddiad



# Rhai o'n henillwyr ar gyfer 2022

## Digwyddiadau Unigol

| Enillydd | Pencampwriaeth Tîm Golff |
|---|---|
| Amateur Dynion Cymru | **James Ashfield** |
| Pencampwriaeth Open Stroke Play Dynion Cymru | **Caolan Burford** |
| Pencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn Dynion Cymru | **Aide Firman** |
| Pencampwriaeth Amateur Golffwyr Hŷn Dynion Cymru | **Philip Sutton** |
| Pencampwriaeth Amateur Menywod Cymru | **Ffion Tynan** |
| Pencampwriaeth Open Stroke Play Menywod Cymru | **Alice Barlow** |
| Pencampwriaeth Amateur Golffwyr Hŷn Menywod Cymru | **Ann Lewis** |
| Pencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn Menywod Cymru (Menywod) | **Ann Lewis** |
| Pencampwriaeth Agored Ieuenctid Cymru | **Alex James** |
| Pencampwriaeth Bechgyn Cymru | **Caolan Burford** |
| Pencampwriaeth Genethod Cymru | **Gracie Mayo** |
| Pencampwriaeth Golffwyr Cymru o dan 16 oed | **Dion Regan** |
| Cymru o dan 14 oed | **Paul Reid** |
| Pencampwriaeth Golff Gareth Bale | **Callum Hook** |
| Pencampwriaeth Golff Anabledd Cymru | **Morgan Jones** |

## Digwyddiadau Tîm

| Enillydd | Pencampwriaeth Tîm Golff |
|---|---|
| Dynion Cymru | **Castell Nedd** |
| Pencampwriaeth Tîm Menywod Cymru | **Casnewydd** |
| Pencampwriaeth Tîm Handicap Cymru | **Celtic Manor** |
| Her Rhwng Clybiau Ieuenctid Cymru | **Greenmeadow** |
| PING Mixed Foursomes | **Pontardawe** |
| Victory Shield | **Casnewydd** |

### Llongyfarchiadau i holl enillwyr ein digwyddiadau!

Nid ydym yn gallu disgrifio pob llwyddiant, mae'n werth nodi Caolan Burford am ennill Pencampwriaeth Agored Strokeplay Cymru (Dynion) a'r Bencampwriaeth ar gyfer Bechgyn Cymru yn yr un flwyddyn. Dwy fuddugoliaeth sydd wedi'i symud ymlaen i gynrychioli Cymru ar y Llwyfan Rhyngwladol. Hefyd, hoffwn sôn yn arbennig am Glwb Golff Casnewydd sydd wedi ennill y Victory Shield a Phencampwriaeth Tîm y Menywod yn ogystal â gorffen yn bedwerydd yn y PING Cymysg. Blwyddyn lwyddiannus iddyn nhw ac rydym yn edrych ymlaen at gynnal Pencampwriaethau Amateur Y Dynion a Menywod yng Nghasnewydd eleni.

# Gwobrau Golff Cymru 2022

**Dychwelodd Gwobrau Golff Cymru, sy'n cydnabod y gorau yng ngolff Cymru, i leoliad Cwpan Ryder, 'the Celtic Manor Resort Twenty Ten Clubhouse', ym mis Mawrth ar ôl 4 mlynedd o absenoldeb.**

**Byddai Golff Cymru yn hoffi diolch i'n noddwyr, partneriaid, clybiau a 'the Celtic Manor Resort' am eu lletygarwch, yn ogystal ag i Sian Lloyd, am arwain y digwyddiad.**

- Clwb Golff Y Flwyddyn Cymru, cefnogwyd gan Howden - Clwb Golff Llanisien, yn sgil sawl menter amgylcheddol ac yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus i ganolbwyntio ar grwpiau sy'n cael eu tan gynrychioli fel chwaraewyr iau a menywod. Mae'r clwb hefyd yn ddeiliaid balch o'r Siarter Menywod Mewn Golff. Mae cynllun New2golff llwyddiannus ar gyfer menywod wedi denu 57 aelod newydd, gan gynyddu aelodaeth y clwb i fwy na 700. Cafodd rowndiau terfynol wythnos Golff ei chynnal yn Llanisien; cafwyd cefnogaeth anhygoel gan staff ac aelodau gan sicrhau llwyddiant ysgubol.



- Rheolwr Clwb y Flwyddyn Cymru, cefnogwyd gan GCMA – Matt Parsley, Clwb Golff Conwy ar ôl goruchwylio cyfnod o fenter gyffrous i symud ymlaen un o'r clwb golff yng Nghymru.
- Gwirfoddolwyr y Flwyddyn - Brett Walker, Clwb Golff Caerfyrddin, ar ôl gwneud argraff fawr ar sector iau'r Clwb am y bum mlynedd ddiwethaf.
- Clwb Iau'r Flwyddyn, cefnogwyd gan y Sefydliad Golff - Clwb Golff Nefyn, gydag un o'r adrannau ieuenctid cryfaf yng Nghymru, 65 bachgen ac 18 geneth, gyda phwyllgor iau cryf o 8 i'w wneud i gyd yn bosib.
- Hyfforddwr Datablygu PGA y Flwyddyn - Gareth Howell, Clwb Golff Pîl a Chynffig a wnaeth argraff fawr ar hyfforddi ym mhob adran ym Mhîl a Chynffig gyda thwf sylweddol yn yr adrannau Ieuenctid a Menywod yn y flwyddyn gyda mwy na 40 o chwaraewyr iau yn cael hyfforddiant rheolaidd bob wythnos a mwy na 50 menyw yn cymryd rhan yn rhaglenni New2Golf.
- Golffwr Amatur y Flwyddyn PING (Dynion) - Archie Davies, Clwb Golff Caerliwelydd a lwyddodd i orffen yn y 10 uchaf ym Mhencampwriaeth Golff Tîm Amateur ar lefel unigol ac fel rhan o dîm Cymru. Roedd Archie yn aelod o dîm Prydain ac Iwerddon i chwarae yn erbyn Ewrop ar gyfer Tlws St Andrews a hefyd fel rhan o dîm buddugoliaethus Arnold Palmer Cup Internationol yn y gêm yn erbyn Tîm UDA.
- Golffwr Amatur y Flwyddyn PING (Benywaidd) - Gracie Mayo, Clwb Golff Brenhinol Porthcawl sy'n astudio ym Mhrifysgol Oklahoma a hi oedd Pencampwr Genethod Cymru, yn ogystal â bod yn rhan o dîm Menywod Cymru a gyrhaeddodd yr haen uchaf ym Mhencampwriaeth Tîm Menywod Ewrop am y tro cyntaf ers 15 mlynedd.
- Gwobr Cyflawniad Oes - Clive Brown, Capten cyntaf Cymru ar 'The Royal and Ancient Golf Club' , i gydnabod ei yrfa hir a llwyddiannus, gan gynnwys chwarae a bod yn gapten Cymru, bu'n gapten Tîm Cwpan Walker Prydain ac Iwerddon yn eu gêm fuddugoliaethus 1995 yng Nghlwb Golff Brenhinol Porthcawl a gêm 1997 yn Quaker Ridge.



# Datblygiad Cyfundrefnol

**Mae llywodraethu da, yn cynnwys nid yn unig rheolaethau a phrosesau ond diwylliant a gwerthoedd, sydd hefyd yn gonglfaen unrhyw endid llwyddiannus. Mae hyn yr un mor wir ar gyfer corff chwaraeon fel Golff Cymru fel y mae i sefydliadau masnachol.**

Bwrdd o gyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am lywodraethu Golff Cymru gan gynnwys y Prif Weithredwr, Cadeirydd annibynnol a saith cyfarwyddwr anweithredol annibynnol. Penodir cyfarwyddwyr drwy broses agored a thryloyw ar sail y sgiliau y maent yn eu cyflwyno i'r sefydliad. Mae gan y bwrdd cyfredol brofiad sylweddol mewn ystod eang o ddisgyblaethau gan gynnwys datblygu chwaraeon, perfformiad uchel, cyfrifeg, cyfreithiol, marchnata a masnachol; mae'r rhain i gyd yn cael eu gweld yn bwysig i lwyddiant tymor hir y cwmni.

Ni all llywodraethu da fyth aros yn ei unfan ond rhaid iddo esblygu dros amser i ddiwallu anghenion y sefydliad a chynnal arfer gorau. Gyda hyn mewn golwg, mae camau gweithredu pellach wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn gyfredol fel rhan o'n cynllun gwella llywodraethu parhaus.



**Fel rhan o'i ymrwymiad i welliant parhaus mewn llywodraethu, drwy 2022-23 mae Golff Cymru wedi:**

- Cwblhau adolygiad strategol ac wedi diweddaru ei genhadaeth, diben a gwerthoedd.
- Cwblhau adolygiad llywodraethu cadarnhaol gyda Chwaraeon Cymru.
- Adolygu a diweddaru Erthyglau'r Gymdeithas (wedi'u cymeradwyo gan Aelodau).
- Adolygu a lle mae angen wedi diweddaru ystod eang o ddogfennau polisi.
- Diweddaru ei ddull o ran asesiadau risg a rheoli
- Cynnal safonau uchel ar gyfer diogelu a chydraddoldeb.
- Mabwysiadu a chyflawni cydymffurfiaeth gyda Pholisi Atal Dopio'r DU.



# Canlyniadau Ariannol Blwyddyn Yn Gorffen 31

## Iwan Jones Cyfarwyddwr Anweithredol Cyllid



**Yn gyntaf, dymuna Golff Cymru ddiolch i Andrew Emery. Ar ôl 6 mlynedd fel aelod o'r Bwrdd, penderfynodd Andrew gamu i lawr o'i rôl fel Cyfarwyddwr a thrysorydd. Mae Andrew wedi cynorthwyo Golff Cymru drwy amser heriol iawn ac wedi sicrhau bod ei sefyllfa ariannol yn gadarn.**

Rwy'n cyflwyno'r adroddiad hwn ar gyfrifon hyd at ddiwedd Mawrth 2023. I'w roi mewn cyd-destun, dyma'r flwyddyn lawn o ganlyniadau ariannol yn sgil y tarfu a fu ar weithgareddau o ganlyniad i bandemig Covid. Mae Golff Cymru wedi camu'n raddol allan o gyfnod y pandemig ac i bob pwrpas wedi dychwelyd at fusnes yn ôl yr arfer. Fodd bynnag, gosodwyd cyllidebau yn erbyn ansicrwydd cynyddol am niferoedd yr aelodaeth yn dilyn cyfnod o dwf cryf iawn yn ystod y pandemig a lefelau ariannu gan gyrff llywodraethu.

Gosodwyd cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol i sicrhau sefydlogrwydd ariannol yn ystod yr amser hwn o ansicrwydd gyda'r rhagolygon yn awgrymu arian dros ben o £32mil o gymharu â gwarged o £279mil yn 2021/22. Heb anghofio'r ansicrwydd ariannol a brofwyd o fewn yr economi ehangach, a lefelau annisgwyl o bwysau chwyddiant, mae stiwardiaeth gofalus gan staff a'r Bwrdd wedi sicrhau bod Golff Cymru wedi adolygu ei strategaeth gwariant a buddsoddi gan ddod i ddiffyg o tua £3mil, sy'n cyd-fynd yn fras â thargedau diwygiedig.

O ganlyniad i'r gyllideb hon a lefel y gwariant, roedd modd, nid yn unig cyflawni cyfres lawn o ddigwyddiadau Pencampwriaeth ond hefyd gwelwyd cynnydd sylweddol yn y gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal gan ein tîm datblygu ac roedd yn braf gweld ein timau ac unigolion elît yn cystadlu ar lefel ryngwladol eto.

Yn unol â'r disgwyl, ein ffynhonnell incwm mwyaf oedd tâl tanysgrifio ein haelodau clwb. Fel yr adroddwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, arhosodd aelodaeth clwb yn gryf, gan adlewyrchu poblogrwydd parhaus y gamp. Mae'n braf adrodd eto bod ein holl bartneriaid cyllid wedi parhau i'n cefnogi ni drwy'r cyfnod ariannol.

Yn adroddiad y llynedd, tynnwyd sylw at y gostyngiad o dros 40% a oedd yn cael ei ragweld yn ein cyllid gan Chwaraeon Cymru dros y tymor canolig. Rydym yn ddiolchgar i Chwaraeon Cymru am eu cefnogaeth barhaus, a thra bod y gostyngiad yn awr wedi'i gadarnhau, sef tua 20% erbyn blwyddyn ariannol 2025/26, mae'r her yn parhau i Golff Cymru chwilio am ffynonellau cyllido amgen eraill i gynnal datblygiad y gêm i'r dyfodol. Bydd datblygu ffrydiau refeniw mwy masnachol yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth gan symud ymlaen.

Mae'n perthynas gyda R&A dal yn gryf, ac maent yn parhau i ddarparu cyllid craidd a chefnogaeth bwrpasol ar gyfer mentrau Datblygu. Byddwn yn hoffi cofnodi ein gwerthfawrogiad o'r Sefydliad Golff a'r PGA am eu cyfraniad ariannol i'r gêm yng Nghymru a'u dull cydweithredol o rannu gwybodaeth ac arfer gorau.


Yng nghyfrifon blynyddol y llynedd cafodd problem TAW posib ei datgelu. Mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithio i ddatrys y mater hwn ac wedi cael asesiad gan CThEF a oedd yn unol â'i ddisgwyliadau. Mae mwy o fanylion yn cael eu datgelu yng nghyfrifon 2022/23.


Mae'r fantolen a'r arian wrth gefn dal mewn sefyllfa gadarn. Ar gyfer cyfnod ariannol 2023/24 i adlewyrchu lleihad cychwynnol mewn ariannu craidd ac effeithiau chwyddiant ar gostau gwaelodol a'r angen i leddfu yn erbyn unrhyw bwysau ychwanegol ar glybiau sy'n aelodau cymaint ag sy'n bosib gan hefyd barhau i gynnal gweithgareddau Golff Cymru, mae'r Bwrdd wedi cyllidebau ar gyfer diffyg ariannol yn y flwyddyn ariannol bresennol. Mae hyn yn digwydd yn bennaf oherwydd nifer fach o brosiectau penodol sydd wedi eu targedau i ddod â buddion hir dymor i'r gamp yng Nghymru. Mae'r Bwrdd yn disgwyl y bydd y diffyg yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf wrth i gyllid craidd leihau ac wrth i Golff Cymru ddefnyddio'r arian wrth gefn sydd wedi cronni yn ystod y pandemig. Fodd bynnag mae uchelgais a her fel y nodwyd uchod i dyfu incwm masnachol a dychwelyd at gyllid cytbwys eto dros y tymor canolig.

I gloi, tra bod heriau sylweddol, mae golff dal mewn sefyllfa gref fel y gellid fod wedi gobeithio o gofio digwyddiadau'r blynyddoedd diwethaf. Mae'r Bwrdd yn gwbl ymrwymedig i fuddsoddi yn y gêm, gweithio ochr yn ochr gyda'n clybiau a phartneriaid cyllid i dyfu'r gêm yng Nghymru.

*Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £1000 agosaf

# Canlyniadau Ariannol Blwyddyn yn Gorffen 31 Mawrth 2023




| Incwm | £000 |
|---|---|
| Grantiau | **912** |
| Tanysgrifiadau | **702** |
| Pencampwriaethau | **130** |
| Masnachol | **27** |
| Arall | **24** |
| Flexi Club | **9** |
| **Cyfanswm** | **1,804** |

| Gwariant | £000 |
|---|---|
| Pencampwriaethau | **251** |
| Perfformiad Uchel | **540** |
| Datblygu | **553** |
| Cwrs Golff a Handicap | **79** |
| Costau Gweinyddol a Chanolog | **384** |
| **Cyfanswm** | **1,807** |